


Cynllun Iaith Gymraeg: ymgynghoriad



Am y Cyngor Optegol Cyffredinol

Cyflwyniad

Mae'r Cyngor Optegol Cyffredinol yn un o 13 o sefydliadau yn y DU a elwir yn rheoleiddwyr iechyd a gofal cymdeithasol. Y sefydliadau hyn sy'n goruchwyllo'r proffesiynau iechyd a gofal cymdeithasol drwy reoleiddio gweithwyr proffesiynol unigol. Ni yw'r rheoleiddiwr dros y proffesiynau optegol yn y DU. Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn cofrestru rhyw 22,000 o optometryddion, optegwyr dosbarthu, myfyrwyr optometreg a busnesau optegol.

Cenhadaeth a gwerthoedd

Cenhadaeth y Cyngor yw amddiffyn y cyhoedd drwy hyrwyddo safonau addysg ac ymddygiad uchel ymhlith optegwyr. Conglfaen ein gwaith yw chwe gwerth sylfaenol. Seilir y gwerthoedd hyn ar feini prawf y Comisiwn Rheoleiddio Gwell ar gyfer rheoleiddio da.

Yn gymesur:

Byddwn yn nodi ac yn targedu'r materion sy'n peri'r risg mwyaf i ddiogelwch y cyhoedd.

Byddwn yn dileu biwrocratiaeth ddiangen.

Yn atebol:

Byddwn yn ceisio barn rhanddeiliaid a phartneriaid, ac yn ymateb iddi.

Byddwn yn ystyried ac yn adolygu canlyniadau'n gweithredoedd.

Yn gyson:

Byddwn yn gweithio ar y cyd â chyrff rheoleiddio iechyd y DU a phartneriaid eraill i ddatblygu polisiau a gweithdrefnau cyson.

Yn dryloyw:

Byddwn yn esbonio ac yn rhoi cyhoeddusrwydd i benderfyniadau a, lle bo'n bosibl, yn gwneud gwybodaeth, gweithgareddau a thrafodion y Cyngor yn gyhoeddus.

Yn bwrbasol:

Byddwn yn sicrhau bod ein gweithgarwch yn canolbwyntio ar y meysydd lle ceir y risg mwyaf, neu lle mae'r budd mwyaf i iechyd a diogelwch y cyhoedd.

Rhagoriaeth Sefydliadol:

Byddwn yn rhoi gwerth da am arian.

Byddwn yn ymgynghoedd am safonau uchel mewn gofal cwsmeriaid.

Byddwn yn sicrhau bod y Cyngor yn lle da i weithio, yn enwedig drwy ddatblygu a hyfforddi ein staff a'n haelodau.

Byddwn yn hyrwyddo ac yn meithrin cydraddoldeb ac amrywiaeth yn ein holl waith.

Manylion cyswllt

Cyfeiriad: 41 Harley Street, Llundain, W1G 8DJ

ffôn: 020 7580 3898

e-bost: goc@optical.org

gwe: www.optical.org

Ymateb i'r Ymgynghoriad

Ymatebwch i

Anfonwch eich ymatebion at **Naomi Ford**, erbyn **11 Medi 2009** fan bellaf.

Post: 41 Harley Street, Llundain, W1G 8DJ

E-bost: nford@optical.org

Ffôn: 020 7307 3468

Fel arall, efallai yr hoffech lenwi'r ffurflen ymateb ar-lein sydd ar ein gwefan, **www.optical.org**

Cynhwyswch fanylion cyswllt er mwyn i ni gael mynd ar drywydd unrhyw agwedd berthnasol ar eich ymateb. Oni nodwch fel arall (ac ni chymerir ymwadiad cyffredinol a grëir gan eich system TG fel y cyfryw), byddwn yn cymryd eich bod yn fodlon i ni gyhoeddi'ch ymateb a'i rannu â chyrrff a rhanddeiliaid priodol eraill.

Gwybodaeth bellach

Lle bo'n bosibl, rhowch dystiolaeth i gefnogi'ch ymateb. Os ydych yn grŵp cynrychioliadol, byddai o gymorth pe baech yn cynnwys crynodeb o'r bobl a'r cyrrff rydych yn eu cynrychioli.

Mae copi o'r ymgynghoriad hwn wedi cael ei anfon at nifer fawr o grwpiau rhanddeiliaid sy'n cynrychioli'r sawl sydd wedi cofrestru gyda ni, y cyhoedd, cleifion, cyrrff partner a grwpiau eraill.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau am yr ymarfer ymgynghori cysylltwch â **Naomi Ford** gan ddefnyddio'r manylion cyswllt uchod.

Ymrwymiad y Cyngor i ymgynghori

Cred y Cyngor Optegol Cyffredinol ei bod yn bwysig bod gan bobl mae ein gwaith yn effeithio arnynt lais yn y ffordd rydym yn ei gyflwyno. Credwn ei bod yn hanfodol ymgynghori â'r holl grwpiau sydd â diddordeb yn y Cyngor; cleifion, y cyhoedd, y sawl sydd wedi cofrestru gyda ni, cyrrff optegol, cyrrff gofal iechyd, cyflogwyr, rheoleiddwyr eraill, staff a rhanddeiliaid eraill.

Mae ymgynghori effeithiol yn werthfawr i'n helpu i wella'r ffordd rydym yn gweithio. Mae'n ein llywio ac yn ein helpu i gyflawni'n cenhadaeth sef amddiffyn y cyhoedd drwy hyrwyddo gofal llygaid da.

Byddem yn croesawu adborth am y broses ymgynghori ei hun. Os oes gennych unrhyw sylwadau, cysylltwch â **Simon Grier** ar sgrier@optical.org

Cynllun Iaith Gymraeg

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg y Cyngor Optegol Cyffredinol (GOC) ei baratoi yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Cafodd y Cynllun ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg o dan adran 14 (1) o'r Ddeddf ar **27 Mai 2009**

Cred y GOC fod darpariaeth ddwyieithog yn bwysig fel mater ansawdd gwasanaeth ac nid fel gofyniad cyfreithiol yn unig. I'r perwyl hwn, wrth ddarparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru, bydd yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Datganiad

1. Mae'r GOC wedi mabwysiadu'r egwyddor y bydd, wrth gyflawni ei fusnes cyhoeddus yng Nghymru, yn trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal. Mae'r Cynllun hwn yn nodi sut y bydd y GOC yn rhoi'r egwyddor hon ar waith wrth ddarparu gwasanaethau yng Nghymru.
2. Corff a leolir yn Llundain yw'r GOC. Mae gan y GOC gylch gwaith sy'n cwmpasu'r DU i gyd ac nid yw'n rhagweld yr angen am swyddfa yng Nghymru. Serch hynny mae'r GOC yn bwriadu parchu'r Ddeddf wrth ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru. Wrth lunio'r mesurau a bennir yn y Cynllun, mae'r GOC wedi cymryd i ystyriaeth yr hyn sy'n briodol o dan yr amgylchiadau ac yn rhesymol ymarferol.
3. Er mai'r Prif Weithredwr sy'n gyfrifol yn y pen draw am ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg, Y Pennaeth Cyfathrebu fydd yn goruchwylio gweithrediad y Cynllun o ddydd i ddydd.
4. Ni fydd y Cynllun hwn yn cael ei newid ac eithrio gyda chytundeb y GOC a Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

Cyflwyniad

5. Cafodd y GOC ei sefydlu gan Ddeddf Optegwyr 1958. Mae'n awdurdod cyhoeddus sy'n hyrwyddo buddiannau cleifion a'r cyhoedd drwy reoleiddio optometryddion, optegwyr dosbarthu, myfyrwyr optometreg a busnesau optegol yn y DU. Rhaid i bob optometrydd ac optegwr dosbarthu gofrestru gyda'r Cyngor er mwyn cyflawni'r swyddogaethau hynny a neilltuir gan y Ddeddf Optegwyr ar gyfer y sawl sydd wedi cofrestru gyda'r GMC a'r GOC yn y Deyrnas Unedig.
6. Dr Geoff Harris yw Cadeirydd presennol y GOC a Dian Taylor yw'r Cofrestrydd/ Prif Weithredwr. Mae Cyngor presennol y GOC yn cynnwys chwe aelod lleyg a chwe aelod cofrestredig.
7. Mae darparu gwasanaeth dwyieithog i'r cyhoedd yng Nghymru er lles diogelwch y cyhoedd a bydd yn helpu'r GOC i gyflwyno ei werthoedd craidd o dryloywder a rhagoriaeth sefydliadol, gan gynnwys safonau uchel o ran gwasanaeth cwsmeriaid a chydaddoldeb ac amrywiaeth.
8. Ein nod yw amddiffyn y cyhoedd a hyrwyddo gofal llygaid da. I gyflawni hyn rydym yn:
 1. Gosod safonau ar gyfer addysg a hyfforddiant optegol, perfformiad ac ymddygiad.
 2. Cymeradwyo cymwysterau sy'n arwain at gofrestru.
 3. Cynnal cofrestr o unigolion sydd wedi cymhwyso ac sy'n addas i ymarfer, hyfforddi neu gynnal busnes fel optometryddion ac optegwyr dosbarthu.
 4. Ymchwilio a chymryd camau pan amherir ar addasrwydd i ymarfer, hyfforddi, neu gynnal busnes person sydd wedi cofrestru gyda ni.
9. Rhoddir gwybodaeth bellach am ein gweithgareddau ar ein gwefan ac yn ein Hadroddiad Blynyddol sydd i'w weld ar ein gwefan yn www.optical.org.

10. Y Prif Weithredwr fydd yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad y cynllun.
11. Mae gwybodaeth bellach am y Cynllun Iaith Gymraeg ar gael oddi wrth Kate Fielding, Cyfarwyddwr Cyfathrebu a Gwybodaeth, General Optical Council, 41 Harley Street, London, W1G 8DJ

Cynllunio a chyflwyno gwasanaethau

12. Mae'r GOC yn cydnabod pwysigrwydd darparu gwasanaeth yn newis iaith y cwsmer fel rhan o wasanaeth ansawdd dda.
13. Mae'r GOC yn cydnabod anghenion diwylliannol ac ieithyddol y cyhoedd sy'n siarad Cymraeg ac wedi ymrwymo'n llawn i'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

Polisiâu a mentrau newydd

14. Yn rhan o unrhyw gynnig am bolisi newydd, cynhelir asesiad o effaith debygol y fenter arfaethedig ar y Cynllun Iaith Gymraeg a gallu pobl eraill i ddarparu gwasanaethau yn y Gymraeg. Yn ogystal, bydd y staff a'r rheolwyr sy'n ymwneud â datblygu polisi GOC yn cael eu gwneud yn ymwybodol o'r Cynllun Iaith Gymraeg a chyfrifoldebau'r Cyngor o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993.
15. Hefyd bydd:
 - Ymrwymiad i'r angen i sicrhau y bydd polisiâu a mentrau newydd yn hwyluso defnydd o'r Gymraeg, lle bynnag y bo'n bosibl;
 - Ymrwymiad y bydd y polisiâu a mentrau newydd yn symud y GOC yn agosach at weithredu egwyddor cydraddoldeb ar bob cyfle;
 - Ymrwymiad i sicrhau y bydd polisiâu a mentrau newydd yn cyd-fynd â'r cynllun ac na fyddant yn ei danseilio.
16. Pan fydd menter newydd yn effeithio ar gyrff eraill, bydd y GOC yn dwyn sylw'r corff hwnnw at yr angen i ystyried y goblygiadau o ran y Gymraeg ar gyfer eu corff hwy.
17. Bydd y GOC yn ymgynghori â Bwrdd yr Iaith Gymraeg ymlaen llaw ar gynigion a fydd yn effeithio ar y cynllun neu'n effeithio ar gynlluniau cyrff eraill.
18. Bydd y GOC yn cyhoeddi ac yn dosbarthu canllawiau mewnol sy'n disgrifio'r trefniadau sydd i'w gwneud i roi'r mesurau hyn ar waith.

Cyflwyno gwasanaethau

19. Mae'r GOC wedi ymrwymo i gyflwyno gwasanaeth dwyieithog yn unol â chynnwys y Cynllun hwn.

Safonau gwasanaeth yn y Gymraeg

20. Mae'r GOC wedi ymrwymo i ddarparu gwasanaeth o ansawdd yr un mor uchel yn y ddwy iaith a chaiff hyn ei ddatgan mewn dogfennau allweddol fel ein Hadroddiad Blynyddol.

21. Bydd y GOC yn:

- gosod safonau ar gyfer darparu gwasanaethau a delio â chyhoedd Cymru yn y Gymraeg;
- sicrhau cysondeb yn safon y gwasanaeth Cymraeg a ddarperir;
- monitro safon y gwasanaeth a'i weithrediad.

Cyfathrebu â'r cyhoedd sy'n siarad Cymraeg

22. Canolbwynt cysylltiad y GOC â'r cyhoedd yw delio â chleifion optegol. Caiff canllawiau eu cyhoeddi i staff am gyfathrebu â siaradwyr Cymraeg.
23. Am nad oes gan y GOC unrhyw staff sy'n siarad Cymraeg, bydd yn defnyddio asiantaeth gyfieithu sy'n ymdrin â chyfathrebu ysgrifenedig yn ôl yr angen.

Cyfathrebu ysgrifenedig

24. Mae'r GOC yn croesawu llythyron a gohebiaeth arall yn y Gymraeg yn yr un modd â'r Saesneg. Ni fydd gohebu drwy gyfrwng y Gymraeg ynddo ei hun yn arwain at oedi. Bydd llythyron a dderbynnir yn y Gymraeg yn derbyn ateb Cymraeg wedi ei lofnodi, pryd bynnag y bydd angen ateb, yn unol â'n safonau gwasanaeth cyhoeddedig. Bydd gohebiaeth sy'n dod i law yn Saesneg yn derbyn ateb Saesneg.
25. Bydd yr un egwyddorion yn wir am ohebiaeth drwy'r e-bost.
26. Bydd cronfa ddata o unigolion neu gyrff sy'n dymuno gweithredu drwy gyfrwng y Gymraeg yn cael ei sefydlu adeg cychwyn y Cynllun.
27. Mae'r GOC wedi ymrwymo i gyhoeddi cylchlythyron a llythyron safonol i'r cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog.

Cyfathrebu dros y ffôn

28. Oherwydd adnoddau presennol, yn ariannol ac yn ddynol, ar hyn o bryd nid yw'r GOC yn gallu cynnig gwasanaeth ffôn yn y Gymraeg.
29. Pan dderbynnir galwad yn y Gymraeg oddi wrth aelod o'r cyhoedd, cynigir i'r galwr y dewis o barhau'r alwad yn Saesneg neu gyflwyno'r ymholiad yn ysgrifenedig. Bydd canllawiau yn cael eu cyhoeddi i'r staff.
30. Mae'r GOC yn cydnabod nad ateb delfrydol yw hwn i fodloni anghenion siaradwyr Cymraeg yn llawn. Byddwn yn adolygu'r ddarpariaeth hon yn rheolaidd er mwyn symud tuag at allu derbyn a delio â galwadau yn y Gymraeg yn y dyfodol.

Cyfarfodydd cyhoeddus

31. Mae croeso i'r cyhoedd fynychu pob cyfarfod cyhoeddus y GOC. Wrth gyfarfod yng Nghymru, gofynnir i'r sawl sy'n bwriadu bod yn bresennol ddweud wrth y GOC ymlaen llaw eu bod yn dymuno i gyfieithydd fod yn bresennol.

Ymwneud arall â'r cyhoedd

32. Bydd y GOC yn galluogi mynediad i rannau cyhoeddus perthnasol o'i wefan yn y Gymraeg a'r Saesneg. Bydd cynnwys y wefan a anelir yn bennaf at weithwyr optegol proffesiynol ar gael yn Saesneg yn unig.

33. Bydd gwybodaeth graidd ynghylch y corff ar gael yn y Gymraeg. Bydd aelodau o'r cyhoedd yng Nghymru yn gallu lawrlwytho a llenwi fersiwn o'n ffurflen gwyno yn y Gymraeg.
34. Cyn gwrandawiadau optometryddion ac optegwyr dosbarthu proffesiynol a gofrestrwyd yng Nghymru ar yr adeg berthnasol, bydd yr aelodau hynny o'r cyhoedd sydd i'w galw'n dystion mewn gwrandawiadau Addasrwydd i Ymarfer yn cael cynnig y dewis o annerch y gwrandawriad yn y Gymraeg.

Delwedd gorfforaethol

35. Byddwn yn mabwysiadu hunaniaeth gorfforaethol ddwyieithog i'w defnyddio yng Nghymru.
36. Byddwn yn defnyddio deunydd swyddfa dwyieithog ar gyfer gohebiaeth yng Nghymru.

Cyhoeddi ac argraffu deunydd

37. Mae'r GOC yn cyhoeddi cyhoeddiadau at amrywiaeth o ddibenion. Mae'r cyhoeddiadau hyn yn cael eu defnyddio mewn llawer o wledydd Ewrop ac yn cael eu hargraffu yn Saesneg.
 - Bydd yr Adroddiad Blynyddol ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg
 - Bydd taflenni a anelir at y cyhoedd ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg
 - Nid yw'r GOC yn cyhoeddi datganiadau i'r wasg a datganiadau sy'n ymwneud yn benodol â materion Cymreig fel rhan o'r drefn. Fodd bynnag fel arfer bydd datganiadau i'r wasg a gyhoeddir ar gyfer y wasg yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi yn y Gymraeg a'r Saesneg ar yr un pryd
 - Saesneg fydd iaith canllawiau a deunydd technegol neu arbenigol arall a anelir at weithwyr proffesiynol.
38. Mae pob un o ddogfennau'r GOC yn ddi-dâl. Fodd bynnag, os bydd cost ynghlwm wrth gyhoeddiad yn y dyfodol, ni fydd pris gwerthu cyhoeddiad dwyieithog yn fwy na chost fersiwn uniaith o'r un cyhoeddiad.

Gweithredu a monitro'r Cynllun

Recriwtio a hyfforddi

39. Bydd y pennaeth Adnoddau Dynol yn sicrhau bod pawb sy'n ymwneud â recriwtio a hyfforddi yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg.
40. Mae'r GOC wedi nodi nad oes unrhyw swyddi ar hyn o bryd lle mae'r gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Fodd bynnag, adolygir hyn yn gyson a phe bai gofyniad o'r fath yn cael ei nodi, caiff hyn ei adlewyrchu mewn disgrifiadau swydd a bydd recriwtio yn cael ei gynllunio a'u hysbysebu yn unol â hynny.

41. Os penodir rhywun di-Gymraeg i swydd lle bernir bod y gallu i siarad Cymraeg yn hanfodol, un o amodau cyflogaeth fydd dysgu'r iaith, gyda chefnogaeth lawn y corff.

Dysgu Cymraeg

42. Bydd y GOC yn annog ac yn gwneud darpariaeth i staff ddysgu neu wella eu Cymraeg, lle bo'n gysylltiedig yn uniongyrchol â'u gwaith.

Staff a'u cyfrifoldebau

43. Mae gan bob rheolwr gyfrifoldeb i weithredu'r agweddau hynny ar y Cynllun sy'n berthnasol i'w hadrannau hwy. Cânt eu cefnogi wrth wneud hyn drwy ganllawiau staff a gaiff eu hysgrifennu a'u dosbarthu ar ôl i'r Cynllun gael ei gymeradwyo

Recriwtio yng Nghymru

44. Bydd hysbysiadau swyddogol yn ymddangos:
- Yn ddwyieithog mewn cyhoeddiadau Saesneg sy'n cylchredeg yng Nghymru yn bennaf;
 - Yn uniaith Gymraeg mewn cyhoeddiadau Cymraeg, ac;
 - Yn uniaith Saesneg mewn cyhoeddiadau arbenigol y DU.

Trefniadau gweinyddol a wneir i hwyluso'r Cynllun

45. Er mwyn sicrhau effeithiolrwydd Cynllun Iaith Gymraeg y GOC, rhaid i staff ddeall y cynllun a'i oblygiadau ar gyfer eu gweithgareddau o ddydd i ddydd. Bydd y GOC yn sicrhau bod yr holl staff yn ymwybodol o'u rhwymedigaethau o dan y Cynllun.
46. Hysbysir staff newydd am ymrwymiad y GOC i'w Gynllun Iaith Gymraeg drwy gyfrwng rhaglen sefydlu'r GOC a chaiff gwybodaeth am y cynllun ei chynnwys yn y llawlyfr staff sy'n cael ei aildrafftio ar hyn o bryd.
47. Mae'r GOC wedi rhoi cyfrifoldeb cyffredinol dros y Cynllun Iaith i'r Prif Weithredwr. Mae'r Prif Weithredwr yn atebol i Gyngor y GOC.

Trydydd partiön

48. Bydd contractwyr trydydd parti â'r GOC yn cael eu gwneud yn ymwybodol o Gynllun Iaith Gymraeg y GOC lle bo'n berthnasol i'w dyletswyddau contractiol, a thynnir sylw yn benodol at unrhyw rannau o'r cynllun y disgwylir iddynt eu rhoi ar waith. Caiff perfformiad yn erbyn contractau o'r fath ei fonitro o safbwynt cydymffurfio.
49. Pan fydd y GOC yn dyfarnu grantiau a benthyciadau am weithgareddau sydd i'w cynnal yng Nghymru, bydd yn cynnwys amodau ynghylch defnydd o'r Gymraeg. Wrth wneud hyn bydd yn rhoi sylw i ganllawiau Bwrdd yr Iaith Gymraeg ar ddyfarnu grantiau a benthyciadau (Cyhoeddiad Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2007 - Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd: Materion yn Ymwneud â'r Gymraeg).

Monitro

50. Bydd y GOC yn cyhoeddi ei gynnydd yn flynyddol wrth weithredu a monitro ei Gynllun Iaith Gymraeg. Bydd y Prif Weithredwr yn monitro gweithrediad y Cynllun ar y sail ganlynol:
- A yw'r GOC yn cydymffurfio â'r Cynllun;
 - A yw'r Cynllun yn cael ei reoli'n briodol;
 - Dadansoddiad o'i berfformiad ar seiliau adrannol a chorfforaethol, er mwyn sicrhau cysondeb;
 - Asesu ac ystyried themâu allweddol wrth weithredu'r cynllun
 - Polisiâu a mentrau newydd
 - Safonau cyfathrebu yn y Gymraeg
 - Deunydd sy'n cael ei gyhoeddi a'i argraffu;
 - cydnabod unrhyw wendidau sylfaenol, a chynlluniau gweithredu a fydd yn cynnwys amserlen i ymdrin â hwy.
51. Yn nhrydedd flwyddyn gweithredu'r Cynllun, bydd y GOC yn paratoi adroddiad a fydd yn asesu ac yn gwerthuso perfformiad wrth weithredu'r Cynllun. Bydd yr adroddiad hwn:
- Yn rhoi dadansoddiad o gyflwyniad gwasanaethau a rheoli'r cynllun;
 - Yn amlinellu blaenoriaethau am y tair blynedd nesaf, ynghyd ag amserlen ddiwygiedig ar gyfer gweithredu'r mesurau sydd yn y Cynllun.
52. Ar yr adeg hon, bydd y GOC yn adolygu ac yn diweddarau'r Cynllun Iaith Gymraeg, fel y bo'n briodol.
53. Caiff copi o'r adroddiadau blynyddol ei anfon i Fwrdd yr Iaith Gymraeg cyn gynted â phosibl ar ôl eu cyhoeddi.

Amserlen a thargedau

54. Lle na phennir targedau, bydd y geiriad yn awgrymu naill ai bod y mesur ar waith yn barod, neu dylid rhagdybio y daw'r mesur yn weithredol ar ôl i Fwrdd yr Iaith Gymraeg gymeradwyo'r cynllun.

Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

55. Adeg lansio'r Cynllun, bydd y GOC yn cyhoeddi datganiad i'r wasg ac yn cyhoeddi'r Cynllun ar ein gwefan. Bydd hefyd yn rhan o ddeunyddiau sefydlu'r GOC. Yn ogystal, rhoddir gwybod i'r holl brif randdeiliaid yng Nghymru am y cynllun.

Perfformiad

56. Mae'r GOC wedi ymrwymo i gyhoeddi gwybodaeth mewn perthynas â chyrraedd y safonau a'r targedau a bennir yn y cynllun fel a ganlyn:
- Bydd y Prif Weithredwr yn rhoi diweddariad blynyddol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg sy'n disgrifio'r cynnydd wrth weithredu'r mesurau yn y Cynllun yn erbyn yr amserlen a gymeradwywyd;

- Bydd y Prif Weithredwr yn adolygu unrhyw achlysur lle na fodlonwyd safonau a thargedau cyhoeddedig ac yn cynhyrchu cynllun gweithredu sy'n ymdrin â sut y mae'r GOC yn gobeithio cyflawni'r targedau hyn;
- Rhoddir adborth rheolaidd i staff GOC;
- Bydd Adroddiad Blynyddol GOC yn cynnwys gwybodaeth am natur a graddfa'r gwasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg;
- Gall cwynion am berfformiad gael eu cyflwyno yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Dylai'r rhain gael eu cyfeirio at Naomi Ford, Cynorthwydd Gweithredol i'r Cofrestrydd / Prif Weithredwr, General Optical Council, 41 Harley Street, London W1G 8DJ.

	Targed	Amserlen	Yn Arwain
1	Sefydlu cytundeb gwasanaeth ag asiantaeth gyfieithu	Ebrill 2009	Naomi Ford
2	Sicrhau bod gweithdrefnau asesu effaith yn adlewyrchu gofynion y Cynllun Iaith Gymraeg	Gorffennaf 2009	SMT
3	Briffio staff ac aelodau ar oblygiadau'r Cynllun Iaith Gymraeg	Gorffennaf 2009	Kate Fielding
4	Adolygu'r ddarpariaeth bresennol ac asesu gofynion am ddarpariaeth Gymraeg ar draws pob adran	Medi 2009	SMT
5	Cynnig dewis i dystion FTP mewn achosion perthnasol annerch y gwrandawriad yn y Gymraeg	Gorffennaf 2009	David Henley
6	Cynnwys gwybodaeth wrth sefydlu staff newydd am y Cynllun ynghyd â Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith	Gorffennaf 2009	Lesia Oakley
7	Sefydlu cronfa ddata o unigolion a chyrff sy'n dymuno cyfathrebu yn y Gymraeg	Gorffennaf 2009	Jacob Sanchez
8	Adolygu'r weithdrefn ffôn	Gorffennaf 2009	Jacob Sanchez
9	Mynediad i fannau cyhoeddus y wefan yn y Gymraeg	Medi 2009	Kate Fielding
10	Adroddiad blynyddol yn y Gymraeg	Medi 2009	Kate Fielding
11	Ffurflen gwyno a gwybodaeth ar gael yn y Gymraeg	Medi 2009	Ros Hayles
12	Cyhoeddi adroddiad blynyddol ar gynnydd y Cynllun Iaith Gymraeg (a'i anfon i Fwrdd yr Iaith Gymraeg)	Ebrill 2010	Kate Fielding
13	Asesu a gwerthuso perfformiad wrth weithredu'r Cynllun, rhestru blaenoriaethau'r	Ebrill 2012	Kate Fielding